

## **Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig sy'n dwyn y teitl "Y Llanw'n troi? Adroddiad ar yr ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig"**

---

Rwy'n croesawu adroddiad y Pwyllgor sy'n cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol.

Fel y gwnes i ei gadarnhau yn fy natganiad ysgrifenedig a'm sylwadau i'r Pwyllgor, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu ystod eang o fentrau polisi yn y maes hwn, mewn cysylltiad agos â rhanddeiliaid a phartneriaid i gyflawni'r weledigaeth hon. Mae hyn yn cynnwys datblygu Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru, ein rôl barhaus o ran pennu polisi trwyddedu morol, parhau i weithredu Cyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, rheoli ein pysgodfeydd yn gynaliadwy a'r cyfraniad at rwydwaith o ardaloedd morol gwarchodedig sy'n cael eu rheoli'n dda. Wrth gyflawni'r gwaith hwn, rydym yn ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn ogystal â bodloni gofynion deddfwriaethol cartref ehangach a'n rhwymedigaethau rhyngwladol.

Gan weithio gyda'r Grŵp Llywio Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig, mae Llywodraeth Cymru yn arwain ar y gwaith o gynhyrchu Cynllun Gweithredu ar Flaenoriaethau Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Bydd y Cynllun yn nodi'r cyd-destun strategol a'r gofynion cyflawni penodol. Bydd yn mynegi cyd-weledigaeth y Grŵp ar gyfer rheoli'r rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru. Mae aelodau'r grŵp wedi cytuno ar eu priodrolau a'u cyfrifoldebau o ran rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig a'r camau y mae angen eu blaenoriaethau er mwyn helpu i sicrhau bod cyflwr y rhwydwaith yn ffafriol. Bydd cyflawni hyn yn llwyddiannus yn cyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru i wneud ein cyfraniad at rwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n ecolegol gydlynus ac sy'n cael ei reoli'n dda. Bydd hyn, ynghyd â'r gwaith arall a wneir ar y cyd a amlygwyd uchod, yn cefnogi rheolaeth gynaliadwy ar ein moroedd ac yn cyfrannu at ecosystemau morol gwydn a chynhyrchiol i gefnogi twf a defnydd cynaliadwy o'n moroedd yn awr ac ar gyfer y dyfodol.

Wrth inni baratoi i adael yr Undeb Ewropeaidd, byddaf yn parhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i geisio sicrhau bod y dulliau deddfwriaethol ac ariannol cywir ar gael i Gymru er mwyn parhau i weithio tuag at gyflawni ein gweledigaeth.

Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion penodol y Pwyllgor isod.

**Mae ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad wedi'u nodi isod:**

## **Argymhelliad 1**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell er mwyn i Gymru wireddu manteision ei MPAs, rhaid rheoli'r safleoedd yn effeithiol. Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnig arweiniad yn hyn o beth drwy ddatblygu, yn ddi-oed, strategaeth MPAs, a sicrhau bod pob awdurdod rheoli, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn ymwneud yn frwd â rheoli MPAs ac yn cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau.

### **Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i rwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig a reolir yn effeithiol sy'n darparu'r ystod lawn o fanteision ecolegol a chymdeithasol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i roi arweiniad drwy'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig. Gan weithio gydag ef, byddwn yn cwblhau Cynllun Gweithredu ar Flaenoriaethau Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig i gytuno ar y cyfeiriad strategol ac yn ailffocysu ein gwaith ar y camau rheoli a flaenoriaethwyd sydd eu hangen er mwyn cyflawni a/neu gynnal cyflwr ffafriol yr ardaloedd hyn. Disgwyliaf i'r Cynllun Gweithredu fod ar waith o fis Ebrill nesaf ymlaen.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

## **Argymhelliad 2**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell na ellir rheoli MPAs yn effeithiol heb y lefel briodol o adnoddau, gan gynnwys cyllid a staffio. Rhaid i Lywodraeth Cymru:

- sicrhau bod ganddi ddigon o staff i gyflawni ei chyfrifoldebau ym maes cadwraeth y môr;
- cyflwyno cynigion ar gyfer cyllido dull gweithredu sy'n seiliedig ar ardaloedd, a sicrhau bod gan bob ardal reoli ei swyddog dynodedig ei hun; a
- sicrhau bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddigon o adnoddau i gyflawni ei gyfrifoldebau o ran rheoli MPAs a gwella Rhwydwaith Natura 2000 Cymru.

### **Ymateb: Derbyn o ran Egwyddor**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn o ran egwyddor.

Mae ehangder cyfrifoldebau Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru yn golygu bod yr holl staff yn ymwneud â rheoli moroedd yn gynaliadwy i ryw raddau, boed drwy reoli pysgodfeydd, trwyddedu morol neu gynllunio morol. Fel yr esboniais i'r Pwyllgor, mae cyllidebau adrannol yn dal i

fod yn dynn iawn ond byddaf yn parhau i adolygu hyn os bydd arian ar gael o rywle arall yn fy mhortffolio.

Mae'r Grŵp Llywio Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig eisoes wedi ystyried y cynigion ar gyfer ariannu dull rheoli yn seiliedig ar ardaloedd. Rwy'n cefnogi canlyniad y gwaith hwn lle y daeth y Grŵp Llywio i'r casgliad y byddai'n fwy costeffeithiol, ac yn sicrhau gwell gwerth am arian, pe baem yn canolbwyntio ar brosiectau penodol a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar gyflwr nodweddiad. Bydd y prosiectau hyn yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu ar Flaenoriaethau Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig. Ysgrifennais at awdurdodau perthnasol yn gynharach eleni i'w hatgoffa am eu rhwymedigaethau statudol ac i hyrwyddo'r cyfleoedd i awdurdodau gydweithio fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Bydd fy adran yn gofyn am farn y Grŵp Llywio i asesu a oes mwy y gallwn ei wneud ar y cyd i annog awdurdodau rheoli i gydweithio neu i rannu arferion gorau.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i gyflawni ei ddyletswyddau statudol o fewn ei ddyraniad cyllid. Rwy'n cwrdd â Chadeirydd a Phrif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheolaidd a byddaf yn trafod unrhyw bryderon neu broblemau posibl sy'n wynebu Cyfoeth Naturiol Cymru o ran cyflawni ei rwymedigaethau.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 3**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ymgysylltu'n well â rhanddeiliaid a'r cyhoedd a gweithredu mewn ffordd fwy tryloyw ac effeithlon, gan gynnwys cyhoeddi gwybodaeth am weithgareddau'r grwpiau arbenigol y mae'n eu harwain. Dylai rhanddeiliaid gael ymwneud yn llawn â datblygu'r strategaeth MPAs. Rhaid i Lywodraeth Cymru gryfhau ymwybyddiaeth o MPAs ymhlith y cyhoedd.

### **Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Rwyf wedi ymrwymo i ymgysylltu a phartneriaid allanol a rhanddeiliaid i ddatblygu a chyflawni gwaith fy mhortffolio. Yn ogystal â'r Grŵp Llywio Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Cynghori a Gweithredu Morol Cymru (Grŵp Cynghori Strategol Cymru ar Faterion Morol gynt) a Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru. Mae'r fforymau rhanddeiliaid lefel uchel hyn yn sicrhau ymgysylltiad effeithiol ac ystyrion mewn perthynas â chyflawni gwaith yn ymwneud â'r môr a physgodfeydd ac maent yn ddull pwysig o hysbysu a llunio ein polisïau, ein cynlluniau, ein strategaethau a'n deddfwriaeth i helpu i gyflawni ein hamcanion strategol ar gyfer y maes hwn.

Rhennir diweddariadau a negeseuon allweddol o gyfarfodydd y grwpiau hyn ar ein gwefan a thrwy rwydweithiau'r aelodau. Mae nodiadau llawn o gyfarfodydd Grŵp Cynghori a Gweithredu Rhanddeiliaid Morol Cymru a Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd a'r Môr Cymru ar gael ar gais. Er mwyn sicrhau tryloywder, mae copïau o gofnodion cyfarfodydd rhanddeiliaid eraill ac adroddiadau gweithdai megis y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid ar Gynllunio Morol a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gregyn Boch hefyd ar gael ar gais. Mae'r rhain yn cynnwys crynodeb o'r trafodaethau a gynhaliwyd. Rwyf eisoes wedi ymrwymo i gyhoeddi cofnodion y Grŵp Llywio ar reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gregyn Bylchog.. Y bwriad yw cyhoeddi pwyntiau cryno o gyfarfodydd a gweithdai rhanddeiliaid ar dudalen gwefan Morol a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru ar unwaith.

O ran ymgysylltu'n ehangach ar ein Hardaloedd Morol Gwarchoddedig, mae ymgyrch Blwyddyn y Môr 2018 yn gyfle gwych i hyrwyddo eu gwerth. Mae fy adran yn gweithio gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae'r ymgyrch hon yn eu cynnig i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o'n safleoedd.

**Goblygiadau Ariannol** - Bydd unrhyw gostau ychwanegol, y disgwylir iddynt fod yn fach iawn, yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

#### **Argymhelliad 4**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth orfodi sy'n seiliedig ar risgiau ac sy'n mynd i'r afael â'r holl bwysau sydd ar MPAs, gan gynnwys ansawdd dŵr, sbwriel, pwysau yn sgil gweithgareddau hamdden; pysgodfeydd a chasglu adnoddau morol sydd heb eu rheoleiddio; a dylai symud yn gyflym i roi camau rheoli ar waith yn yr MPAs y gwyddys eu bod dan fygythiad.

#### **Ymateb: Derbyn o ran egwyddor**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn o ran egwyddor. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithredu dull sy'n seiliedig ar risg ac wedi'i arwain gan wybodaeth o ran gorfodi morol, a bydd hynny'n parhau. Felly nid oes angen strategaeth newydd.

Mae'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Rheoli ein Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn seiliedig ar bum maes a nodwyd fel blaenoriaeth ar gyfer rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig. Mae'r ymrwymadau fel a ganlyn:

- Rheoli gwastraff
- Llygredd a gwastraff, gan gynnwys sbwriel morol ac ansawdd dŵr
- Mynediad a Hamdden
- Pysgodfeydd morol
- Rhywogaethau estron goresgynnol

Mae camau wedi'u nodi er mwyn canolbwyntio ein cymorth ar ymyriadau sydd wedi'u targedu at y nodweddion hynny sydd fwyaf mewn perygl yn sgil pwysau cysylltiedig. Bydd Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i weithio gydag asiantaethau gorfodi perthnasol, gan ddarparu cymorth lle bynnag y bo modd.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 5**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid sicrhau bod data, tystiolaeth ac ymchwil ar gael yn elfen ganolog o ddatblygu a rheoli polisi MPAs. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu partneriaeth gwyddor môr yng Nghymru i ddwyn diwydiant, academia a rhanddeiliaid ynghyd. Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod ganddi ddata ac ymchwil effeithiol ar waith i reoli MPAs, gan gynnwys gwaith monitro a gwyliadwriaeth.

### **Ymateb: Derbyn o ran egwyddor**

Cytunaf fod data cadarn a thystiolaeth gadarn yn hanfodol er mwyn sicrhau rheolaeth effeithiol a defnydd cynaliadwy o'n moroedd. Mae gennym lawer o wybodaeth sydd ar gael inni o ystod eang o ffynonellau ac mae ein gwyddonwyr morol yn cydweithio ag ystod o sefydliadau partner. Rydym ni a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydweithio'n agos â'r Cyd-Gyngor Cadwraeth Natur (JNCC) ac asiantaethau cadwraeth natur gwledydd eraill i ddatblygu dull cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fonitro a chadw golwg ar ein gwefannau. Bydd y gwaith hwn yn dod i ben yr haf nesaf. Byddwn yn adolygu ein dull o fonitro safleoedd ymhellach pan fydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau. Byddaf yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar ôl i'r cynigion gael eu llunio'n llawn.

**Goblygiadau Ariannol** - Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 6**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell wrth ddynodi MPAs yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer y gwaith rheoli, monitro, goruchwylio a gorfodi y bydd gofyn ei wneud ar safle(oedd) a sut y darperir adnoddau o'r fath.

### **Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Cyn belled ag sy'n bosibl, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn nodi mesurau rheoli posibl, gofynion monitro a gorfodi a chostau dangosol cysylltiedig fel rhan o'r broses Asesu Effaith wrth ymgynghori â safleoedd arfaethedig. Mae'r Aseiad Effaith yn ffurfio rhan o'r pecyn ymgynghori ar gyfer safleoedd arfaethedig.

**Goblygiadau Ariannol** – Mae'r costau ar gyfer paratoi Aseidiadau Effaith yn cael eu talu o gyllidebau presennol.

### **Argymhelliad 7**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddiffinio'r hyn y mae Rhwydwaith Ecolegol Gydlynol o MPAs yn nyfroedd Cymru yn ei olygu a dylai gydweithio â rhanddeiliaid i fynd i'r afael â bylchau yn y rhwydwaith.

#### **Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Gellir ystyried rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn ecolegol gydlynol os yw'n gwarchod amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau morol sy'n gynrychioliadol (brodorol) o'n dyfroedd, sy'n wydn er mwyn gwrthsefyll effeithau, addasu iddynt neu adfer ohonynt, os yw'n cysylltu ardaloedd er mwyn caniatáu cysylltiadau ac os yw'n amddiffyn rhywogaethau drwy eu cyfnodau bywyd gwahanol.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at rwydwaith ecolegol cydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn nyfroedd y DU. Mae gan ein rhwydwaith, yn gyffredinol, gysylltiadau da. Cynrychiolir y rhan fwyaf o gynefinoedd a rhywogaethau eang, sydd â symudedd cyfyngedig neu symudedd er lefel isel, a chânt eu hefelychu lle y bo'n bosibl. Mae hyn yn sicrhau rhwydwaith gwydn.

Yn gynharach eleni, gwneuthum ddatganiad ysgrifenedig am gyfraniad ein rhwydwaith a nodais fy ymrwymiad i weithio gyda rhanddeiliaid i fynd i'r afael â'r mân fylchau a nodwyd yn y rhwydwaith.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 8**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell mai un o gonglfeini rheoli MPAs yw sicrhau atebolrwydd a llwybr at gyfiawnder. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod trefniadau yn y dyfodol yn unol â Chonfensiwn Aarhus ac nad ydynt yn rhy ddrud i ymgeiswyr.

#### **Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae egwyddorion confensiwn Aarhus yn bileri pwysig o ran rheoli adnoddau naturiol cynaliadwy a byddwn am i hyn barhau. Ar hyn o bryd mae'n rhy gynnar i wybod ar ba ffurf y bydd hyn.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

## **Argymhelliad 9**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru asesu effaith debygol gadael yr Undeb Ewropeaidd ar MPAs Cymru, gan gynnwys a oes modd cysoni'r drefn ddynodi a rheoli, gan ymrwymo i sicrhau na chollir dim gwarchodaeth o dan drefniadau'r dyfodol. Rhaid iddo hefyd ofyn am gytundeb â Llywodraeth y DU ynghylch sut y caiff amddiffyniadau amgylcheddol morol eu rheoli'n gyflynol mewn ardaloedd morol trawsffiniol.

### **Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Rwyf wedi pwysleisio'n gyson wrth Lywodraeth y DU, na ddylai ein hymrwymiad i sicrhau nad yw'r amddiffyniadau a'r safonau, sydd o fudd i ddinasyddion Cymru a lles cymdeithas yn gyffredinol, yn cael eu herydu o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd.

Yn ein trafodaethau parhaus â Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig, byddwn yn parhau i adlewyrchu anghenion Cymru. Rwyf hefyd yn cytuno ei bod yn bwysig ein bod yn cytuno ar y cyd ar ddull o barhau i reoli ardaloedd morol trawsffiniol, ar ôl i ni adael yr Undeb Ewropeaidd.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

## **Argymhelliad 10**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod adroddiadau am gyflwr a statws safleoedd MPAs Cymru sy'n ofynnol ar hyn o bryd o dan ddeddfwriaeth Ewrop yn cael eu paratoi'n rheolaidd ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, gan gyhoeddi a darparu adroddiadau i awdurdodau rheoli'n brydlon.

### **Ymateb: Derbyn o ran egwyddor**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn o ran egwyddor. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fodloni'r gofynion adrodd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 124 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ac yn darparu adroddiad bob chwe blynedd ar gyflwr ein rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig. Bydd Cymru'n parhau i gyfrannu at Adroddiad Statws Ansawdd Comisiwn OSPAR a fydd yn cynnwys asesiad o statws y rhwydwaith.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu Adroddiadau Cyflwr Safleoedd dangosol, a fydd yn darparu tystiolaeth inni i gefnogi gwaith rheoli a llywio gofynion adrodd. Er nad yw'n ofyniad statudol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu cynhyrchu adroddiadau am gyflwr safleoedd yn fwy rheolaidd.

Mae prosiect ar y gweill ar hyn o bryd i ystyried sut y gellir cyflawni hyn. Bydd adroddiadau yn cael eu rhannu gyda rhanddeiliaid fel mater o drefn.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

### **Argymhelliad 11**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â Llywodraeth y DU i sicrhau bod adnoddau pysgodfeydd Cymru a buddiannau fflyd Cymru yn cael eu gwarchod yn llawn yn y trafodaethau i adael yr Undeb Ewropeaidd. Dylai trefniadau rheoli pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol ystyried Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a strategaeth MPAs Cymru

### **Ymateb: Derbyn**

Byddaf fi a'm hadran yn parhau i weithio gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill a Llywodraeth y DU i ddiogelu dyfodol diwydiant pysgota Cymru.

Bydd pysgodfeydd a dyframaethu yn ymddangos yng Nghynllun Morol Cenedlaethol cyntaf Cymru ochr yn ochr â sectorau blaenoriaeth eraill. Bydd ein dull o reoli pysgodfeydd yn parhau i fod yn sensitif i nodweddion ardaloedd gwarchodedig morol, ac i'r ecosystem ehangach, drwy egwyddorion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol gyda'r disgwyliad, pan fydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, y bydd y ffrydiau ariannu cyfredol yn parhau.

### **Argymhelliad 12**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru egluro sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r diffyg cyllid a all fod ar gael ar gyfer gwaith MPAs gan fod y cyllid hwnnw ar hyn o bryd yn dod o gronfeydd yr UE, megis Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a LIFE-Nature.

### **Ymateb: Gwrthod**

Nid cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw esbonio'r hyn y bydd yn ei wneud i ddisodli'r arian a gollir o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir iawn mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw gwireddu'r addewid a wnaed yn y refferendwm gan yr ymgyrch Gadael, sef na fydd Cymru'n colli yr un geiniog o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim i Lywodraeth Cymru.



Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion  
Gwledig